**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Medi 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, J. Chamberlain-Jones, Ms. J. Hughes, A.S. Johnson, K. R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs D. L. King,
Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Miss S. Roberts, Ms V. Roberts, R. Turner a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**13. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd A. J. Rutherford.

**14. CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD YN YSGOD EGWYL MIS AWST**

Ymhellach i Gofnod Rhif 49 Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Gorffennaf 2019, nododd yr Aelodau y ceisiadau canlynol a oedd wedi cael ymateb yn ystod Egwyl mis Awst gan Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 14.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 27 Seabank Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0661<br><br>**DISGRIFIAD:** Gwaith ar goeden mewn ardal Gadwraeth<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Tim Davies, Davies land and Sea Ltd. Yr Hen Orsaf Heddlu, Lloc<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Land at Ernest Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: J. Ball<br>Mrs. P.M. Jones<br>P. Prendergast<br><br>**RHIF Y CAIS**: 45/2019/0681<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd o hen iard fetel i Werthu Ceir a lleoli caban gwerthu<br><br>**YMGEISWYR :** J.K. Bagri, The Wendover, 1 Penisaf Avenue, Towyn<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 117 Marsh Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Ball<br>Mrs. P.M. Jones<br>P. Prendergast<br><br>**RHIF Y CAIS**: 45/2019/0635<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod tri caead rholio ar y drychiad blaen<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. A. Webber, Rhyl Tyre and Battery, 117 Marsh Road, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 1 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS**: 45/2019/0695<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd siop i arcêd<br><br>**YMGEISWYR** : Parker Leisure Holdings Limited, The Bright Spot, 1 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 14.5 | **AIL-YMGYNGHORIAD**<br><br>**DS. PAN YSTYRIWYD Y CAIS YN WREIDDIOL GAN Y CYNGOR TREF, NID OEDD NIFER O DDOGFENNAU PERTHNASOL WEDI EU DERBYN GAN YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL** |

| | |
|---|---|
| | **LLEOLIAD Y SAFLE** Tir ar gyn-safle Crown Bard, Ffordd Derwen, y Rhyl, Ll18 2Rl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0592<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu bwyty gyrru trwodd, maes parcio, tirlunio, arddangosfeydd archebion cwsmer, man chwarae i blant a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISWYR :** McDonald's Restaurant's Limited, 11- 59 High Road, East Finchley, Llundain<br><br>**PENDERFYNIAD**: I'w ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Tref ar 4ydd Medi 2019 (gweler isod) |
| 14.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 95 Dyserth Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** A.S. Johnson<br>Mrs. W. Mullen-James<br>Ms. V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0623<br><br>**DISGRIFIAD:** Addeiladu estyniadau un llawr ar yr ochr ac yn y cefn i dai annedd.<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Jim France o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**15. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| **ATOLDEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 15.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 69 – 71 Ffordd Wellington, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine |

| | |
|---|---|
| | **RHIF Y CAIS:** 45/2019/0657<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod 5 uned cyddwyswr trin aer allanol a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISWYR :** Ms. J. Bartlett-Jones, 69 -71 Ffordd Wellington, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwhynebiad* |
| 15.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 44 Bedford Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0715<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd maisonette yn swyddfa ac ystafelloedd cyfarfod i'w defnyddio mewn cysylltiad â meddygfa milfeddyg.<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Kieren Barlow, o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 15.3 | **RECONSULTATION**<br><br>**LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn Brookdale Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. D.L. King<br>A.J. Rutherford<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0415<br><br>**DISGRIFIAD:** Cais am Weithred Amrywio i dynnu Llain 5 o'r ymrwymiad Adran 106 yn ymwneud â darparu tai fforddiadwy mewn cysylltiad â chaniatâd cynllunio 45/2006/0816/PF<br><br>**YMGEISWYR :** Nigel Gizzi o'r Gatehouse, Bodoryn Fawr Farm, St. George, Abergele.<br><br>**PENDERFYNIAD BLAENOROL***: Gwrthwynebu: Tra bod y Cyngor yn gwerthfawrogi'r rhesymau am y cais i ddilysu Adran 106, mae'r Cyngor yn bryderus, pe byddai'r datblygiad wedi ei gwblhau mewn amserlen resymol o gymeradwyo'r cais gwreiddiol (45/2006/0816) yna byddai'r tai fforddiadwy wedi eu darparu gan yr ymgeisydd. Nid yw'r ymgeisydd wedi rhoi rheswm na chyfiawnhad dros oedi o ran cyflenwi'r datblygiad. Rhaid i'r Cyngor felly ddod i'r casgliad mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd oedd yr oedi ac felly dylid anrhydeddu'r ymrwymiad Adran 106.* |

| | |
|---|---|
| | *Os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu y dylid cymeradwyo'r amrywiad, yna byddai'r Cyngor Tref yn gofyn bod y datblygwr yn darparu swm neilltuedig addas ar gyfer cyfleusterau cymunedol.*<br><br>***PENDERFYNIAD**: Gwrthwynebu, er gwaethaf y cynnig a wnaed gan yr ymgeisydd o gyfraniad ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried y dylid darparu lefel y tai fforddiadwy a gytunwyd yn wreiddiol gan y naill barti a'r llall pan roddwyd caniatâd cynllunio.* |
| 15.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 13 Oakville Avenue, y Rhyl<br><br>**WARD:** Brynhedydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** B. Mellor<br>R. Turner<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0726<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad un llawr ar ochr ac yng ngefn tŷ annedd<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Terry Ledden of 4 Pen Y Maes Avenue, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 15.5 | **AIL-YMGYNGHORIAD**<br><br>**DS. PAN YSTYRIWYD Y CAIS YN WREIDDIOL GAN Y CYNGOR TREF, NID OEDD NIFER O DDOGFENNAU PERTHNASOL WEDI EU DERBYN GAN YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL**<br><br>**LLEOLIAD Y SAFLE** Tir ar gyn-safle Crown Bard, Ffordd Derwen, y Rhyl, Ll18 2Rl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0592<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu bwyty gyrru trwodd, maes parcio, tirlunio, arddangosfeydd archebion cwsmer, man chwarae i blant a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISWYR :** McDonald's Restaurant's Limited, 11- 59 High Road, East Finchley, Llundain<br><br>***PENDERFYNIAD DIWYGIEDIG** Gwrtheynebu am y rhesymau canlynol*<br><br>*1. Ystyrir y bydd y fynedfa arfaethedig a mynd i'r bwyty o Ffordd Derwen yn cael effaith arwyddocaol ar lif traffig ar gyfer cerbydau sy'n ymuno â, neu'n gadael yr A525 yn enwedig ar adegau prysur. Er y nodir bod y fynedfa wreiddiol i'r Crown Bard wedi ei lleoli mewn lle tebyg, nid oedd y traffig a oedd yn defnyddio'r sefydliad hwnnw yn gymharol i ddefnydd tebygol bwyty gyrru trwodd. Ar hyn o bryd ar yr adegau prysuraf mae'n arferol cael ciwiau traffig sy'n aros i ymuno â'r A525 yn mynd heibio'r fynedfa i'r cyfleustra Hamdden LB.* |

*Mae hyn yn debygol o achosi anawsterau i gerbydau sy'n gadael y safle, gan waethygu'r problemau llif traffig presennol gan andwyo defnyddwyr eraill y ffordd a thrigolion a busnesau cyfagos.*

*Dylid nodi bod yr archwiliad traffig ar gyfer y cynllun wedi ei wneud cyn dechrau rhedeg sêl cist car rheolaidd ar Gae Sioe'r Rhyl sy'n cynhyrchu cynnydd arwyddocaol mewn traffig yn yr ardal. At hyn, mae digwyddiadau unigol megis y Goelcerth Gymunedol Flynyddol hefyd yn debygol o gynhyrchu cynnydd arwyddocaol mewn busnes yn y bwyty gyda'r posibilrwyhdd o greu tagfeydd yn mynd yn ôl i'r A525.*

*Cyflwynir y byddai'r cynnig presennol yn groes i Faen Prawf viii) Polisi RD 1 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, sy'n cynghori na ddylai cynigion gael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol o ganlyniad i dagfeydd a niwsans yn deillio o dagfeydd, perygl a niwsans yn codi o draffig a gynhyrchir ac yn ymgorffori mesurau rheoli/taswelu traffig lle bo angen a lle bo'n briodol.*

*Nodir hefyd bod y fynedfa arfaethedig yn torri ar daws y llwybr beicio a ddynodwyd ac mae'n ymddangos fod hyn yn groes i faen prawf vii y polisi RD 1 uchod a menter "Llwybrau Diogelach i Ysgolion" Cyngor Sir Ddinbych .*

Os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn gofyn bod y pwynt croesi i gerddwyr a beicwyr yn y fynedfa/allanfa yn cynnwys mecanweithiau/marciau priodol i osgoi sefyllfa lle mae traffig sy'n aros i adael y safle yn rhwystro'r groesfan i gerddwyr/beicwyr. Bydd traffig sy'n gadael y safle yn anochel yn aros trwyn i gynffon gan arwain at gerddwyr a beicwyr sy'n aros yn ceiso symud o gwmpas cerbydau trwy fynd ar y briffordd.

*DS Mae'r Cyngor Tref yn ystyried y gellid datrys yr uchod trwy gysylltu'r datblygiad gyda ffordd Parc Manwerthu Clwyd sy'n cyffinio safle'r cais.*

*2.* *Mae'r cais am ganiatâd cynllunio yn dweud nad oes rhywogaethau a amddiffynnir a rhywogaethau blaenoriaeth yn cael eu heffeithio gan y cynnig ond mae'r aelodau lleol wedi dweud bod posibilrwydd bod llygod y dwr a draenogod yn yr ardal hon..*

*Ystyrir felly y gallai'r cais fod yn groes i Bolisi VOE 5 – Cadwraeth Adnoddau Naturiol. Bydd angen i geisiadau a allai gael effaith ar rywogaethau a amddiffynnir neu safleoedd cadwraeth natur dynodedig gael eu cefnogi gan ddatganiad bioamrywiaeth sydd angen ystyroed uchelgais bioamrywiaeth y Sir ar gyfer cadwraeth, gwella ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau.*

*3.* *Bydd y cais yn gofyn am dynnu nifer arwyddocaol o goed iach o dir sy'n cyffinio Ffordd Derwen. Mae rhai o'r coed hyn yn destun Gorchmynion Diogelu Coed. Mae'r coed hyn ar hyn o bryd yn gweithredu fel clustog gweledol a swn rhwng eiddo preswyl ar Ffordd Derwen a Pharc Manwerthu Clwyd ac ystyrir y byddai eu colli yn andwyol i fwynderau preswyl presennol trigolion a phersonau sy'n defnyddio Ffordd Derwen i fynd i'r dref.*

~~*4.*~~ *Made'r ffurflen gais yn dweud nad yw'r oriau agor yn berthnasol i'r cynnig.* Byddai'r Cyngor Tref yn anghytuno'n gryf gyda hyn.

| | | |
|---|---|---|
| | | *Yr oriau gweithredu arfaethedig yw 24 awr y dydd gyda dosbarthu/gwaith gwasanaethu y bwyty gan loriau i ddigwydd 3 gwaith yr wythnos o fewn cyfnod rhwng 6:00 am a 10 pm*<br><br>*Mae'r Cyngor Tref felly yn ystyried bod gweithrediad 24 awr safle sy'n agos at nifer o eiddo preswyl yn groes i faen prawf (iv) polisi RD1, gan y byddai gweithrediad 24 awr a dosbarthu'n gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos yn andwyol i fwynderau preswyl eiddo preswyl cyffiniol. At hyn, mae'r Cyngor yn bryderus ynglyn â'r llygredd golau o'r safle yn effeithio eiddo gerllaw.*<br><br>*Os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor Tref yn gofyn bod yr oriau agor yn cael eu cyfyngu fel a wnaed yn achos cais rhif 45/2011/1512/PF a 45/2018/0341/PF yn Derwen House gerllaw. Nodir hefyd pan roddwyd caniatâd gan yr Awdurdod Cynllunio bryd hynny ar gyfer siop Bysgod a Sglodion yn agos at Rhuddlan Road, rhoddwyd amod yn cyfyngu oriau agor ar y busnes. Trwy ganiatáu i'r cais presennol weithredu 24 awr y dydd mae'n anodd gweld sut byddai ceisiadau yn y dyfodol i amrywio oriau agor y busnesau eraill hyn yn cael eu hamddiffyn.*<br><br>*Ystyrir felly bod y cais yn groes i feini prawf (iii), (iv) a (vi) Polisi RD 1.*<br><br>*5. Mae achosion o lifogydd wdi digwydd yn ddiweddar yn ardal safle'r cais yn enwedig o ddwr glaw ar hyd Ffordd Derwen. Mae'r Cyngor yn bryderus y byddai colli tir sy'n cynorthwyo ar hyn o bryd gyda rheoli dwr yn naturiol yn gwaethygu llifogydd posibl yn y dyfodol.*<br><br>6. Nid yw'r Cynllun Rheoli Sbwriel arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth sbwriel a fydd yn cael ei gludo i werthiannau Cist Car a digwyddiadau eraill ar y Cae Sioe a digwyddiadau eraill ar y Cae Sioe a'r cae syrcas gerllaw a'r llwybrau i gerddwyr rhwng y safleoedd. Os cymeradwyir y cais, dylid newid y Cynllun Rheoli Sbwriel i adlewyrchu'r cynnydd posibl mewn sbwriel rhwng y safleoedd pan gynhelir digwyddiadau. |

## 16. RHIF Y CAIS. 45/2019/0592 TIR AR HEN SAFLE CROWN BARD, FFORDD DERWEN, Y RHYL

Dywedodd aelod bod pryderon wedi eu mynegi gan drigolion lleol bod nifer o goed sy'n destun gorchmynion diogelu coed eisoes wedi eu clirio o'r safle a'i bod wedi hysbysu Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych a oedd yn archwilio i'r mater.

## 17. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: **……………………........**